**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd yng Nghanolfan Deunant, nos Lun, Mai y 9fed 2022.**

**Presennol: Y Cynghorwyr Tim Rosa, Emlyn Jones, Wenda Williams a Jaci Jones**
**Yn y gadair: Cyng Nesta Roberts**
**1)Ymddiheuriadau a datgan diddordeb :** Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng Dafydd Williams a'r Cynghorydd Sir, y Cyng Gareth Williams.
Arwyddodd y Cynghorwyr oedd yn bresennol y datganiadau derbyn swydd.
**2)Cyhoeddiadau y cadeirydd:** Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn siomedig na wnaeth pedwar o'r Cynghorwyr a arferai fod yn aelodau roi eu henwau ymlaen ar gyfer parhau i fod od yn aelodau o'r Cyngor, ond diolchodd iddynt am eu cyfraniad. Bydd angen hysbysebu y pedair sedd wag (dwy yn ward Aberdaron a dwy yn ward Rhoshirwaun) ac mae rhybuddion cyfethol i'w rhoi yn yr hysbysfyrddau.
Adroddodd ei bod wedi derbyn llythyr gan gyn aelod yn datgan anfodlonrwydd nad ydi aelod o'r Cyngor wedi datgan diddordeb mewn trafodaethau diweddar yn lilyn cwynion gan Sefydliad y Merched Aberdaron parthed mynediad i Ganolfan Crud y Werin. Pwysleiswyd yr angen am i aelodau ddatgan diddordeb neu fuddiant personnol yn ofalus cyn cymeryd rhan mewn trafodaethau.
**3)Ethol cadeirydd ac is gadeirydd am y flwyddyn 2022-23**
**i)Ethol Cadeirydd:** Cynnigwyd, eilwyd ac ar bleidlais y mwyafrif etholwyd y Cyng Wenda Williams yn Gadeirydd am y flwyddyn 2022-23 ac fe gymerodd y gadair.
**ii)Ethol is gadeirydd;** tro aelod o ward Rhoshirwaun ydi bod yn is gadeirydd am y flwyddyn, nid oedd Wil Evans, yr unig aelod sydd yn cynrhychioli y ward ar y Cyngor ar hyn o bryd yn bresennol yn y cyfarfod felly penderfynwyd gohirio ethol is gadeirydd tan y mis nesaf.
**4)Adroddiadau gan gynrhychiolwyr ar gyrff allannol ac ethol cynrhychiolwyr i gyrff allannol**
a)Neuadd y Rhiw: Nid oes llawer o ddefnydd wedi bod ar y neuadd dros y ddwy flynedd diwethaf. Etholwyd y Cyng Emlyn Jones yn gynrhychiolydd.
b)Pwyllgor cae chwarae: Nid yw y Cyng Gwenllian Hughes Jones, cynrhychiolydd y cae chwarae yn aelod ar hyn o bryd, penderfynwyd peidio trafod hyd y bydd Cyngor llawn wedi ei ethol.
c)Ysgol Crud y Werin: Nid yw y Cyng Gwenllian Hughes Jones, cynrhychiolydd yr ysgol yn aelod ar hyn o bryd, penderfynwyd peidio trafod hyd y bydd Cyngor llawn wedi ei ethol.
ch)Canolfan Crud y Werin: Gweler 8iii)
d)Canolfan Deunant: Y diweddar Gyng RG Williams arferai gynrhychioli y Cyngor ar y pwyllgor, etholwyd y Cyng Wenda Williams i gynrhychioli
dd)Ardal Cadwraeth Pen Llŷn a'r Sarnau: Y Cyng IG Roberts gyddai yn cynrhychioli y Cyngor, nid yw yn aelod bellach. Penderfynwyd aros i weld os y bydd cyfarfod yn cael ei gynnal cyn ethol cynrhychiolydd.
dd)Unllais Cymru: Etholwyd y Cynghorwyr Wenda Williams a Tim Rosa i gynrhychioli
e)AHNE Llŷn: Etholwyd y Cynghorwyr Wenda Williams a Jaci Jones i gynrhychioli
f)Grwp Mynediad Dwyfor: Mae y Cyng Emlyn Jones yn fodlon cynrhychioli y Cyngor ar y pwyllgor.
ff)Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor: Mae y Cyng Emlyn Jones yn fodlon cynrhychioli y Cyngor ar y pwyllgor.
g)GwyrddNi: Mae Jaci Jones wedi ei dewis yn aelod o'r fforwm.
**5)Adolygu Rheolau Cyllidol, Sefydlog a Mewnol y Cyngor, rhestr asedau ac asesiad risg:** Cylchredwyd copiau o'r dogfennau a phenderfynwyd nad oes angen

eu haddasu ar hyn o bryd.
**6)Mabwysiadu côd ymddygiad**: Mabwysiadwyd y côd ymddygiad.
**7)Lwfansau Cynghorwyr**: Nid oes aleod o'r Cyngor wedi derbyn lwfans.
**8)Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg o Ebrill 2022**:
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
**9) Materion yn codi o'r cofnodion**
i)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:
Nodwyd nad oes atebion wedi dod ynghylch materion llwybrau ers mis Chwefror, fe wnaiff y clerc atgoffa y Swyddog Llwybrau.
Derbyniwyd yr ymatebion isod gan yr Archwiliwr Priffyrdd:
i)Ffordd o Tŷ Croes Mawr i'r Groeslon, Y Rhiw: Mae'r ffordd yma wedi cael ei rhaglennu i'w hail wynebu yn y flwyddyn ariannol hon. Disgwyl i drefnu dyddiad gyda'r contractwr mae'r adran.
Gor-yrru ar y B4413 yn Rhoshirwaun:Mae'r mater yma wedi cael ei anfon ymlaen i Traffig yn y Pencadlys.
iii)Rhiwlas, Y Rhiw: Mae perchennog y clawdd ger Rhiwlas, Rhiw yn ymwybodol fod ei glawdd wedi cael ei daro gan gerbyd ac wedi adrodd ei fod am drefnu i'w atgyweirio. Nodwyd nad yw y swyddog wedi ateb yr ymholiad am 'gones' wrth y clawdd ar allt Y Rhiw.
ii)Materion yr Eglwys Newydd: Adroddwyd fod cyfarfod cyhoeddus wedi ei gynnal ar y 28ain o Ebrill yng Nghanolfan Crud y Werin ac mai siomedig oedd yr ymateb. Fodd bynnag, roedd pawb oedd yn bresennol yn awyddus i gadw adeilad ar y safle, a'i bod yn hanfodol cael safle dan do ar gyfer gwasanaeth angladdol a chapel gorffwys ac yn deall yr anhawster i ddenu grantiau gan nad oes defnydd cymunedol i'r eglwys er ei bod yn adnodd mor bwysig ar gyfer gwasanaethau angladdol.
Penderfynwyd yn y cyfarfod bod angen trwsio y to rwan er mwyn gwarchod yr adeilad tra bod gwaith ehangach o wneud adroddiadau a cheisiadau ar gyfer gwelliannau hir dymor.
Mae'r clerc wedi cysylltu a dau adeiladwr ac yn aros am brisiau ar gyfer trwsio y to. sef Terry Williams a Jones & Williams, Llangwnadl.Bydd rhaid cael prisiau er mwyn ceisio cael arian yswyriant ar gyfer y gwaith, penderfynwyd gofyn i Bartneriaeth V Jones yn ogystal.
Mae cyfarfod wedi ei drefnu gyda Adam Hitchings o'r Gronfa Treftadaeth Bensaerniol ar y 23ain o Fai am 4 o'r gloch ac mae croeso i bawb fynychu.
Penderfynwyd gwahodd Nick Davies o Cadw ac Eryl Williams, swyddog cadwraeth adeiladau Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod hefyd.
Nodwyd fod Mike Tanner, Llechen Llŷn wedi gosod y ddwy garreg oedd ar lawr yn daclus a fod teulu y garreg sydd yn rhydd wedi eu gwybyddu a'u bod yn bwriadu gwneud y gwaith angenrheidiol i ddiogelu y garreg. Diolchwyd i Mike Tanner am y gwaith.
Tynnwyd sylw nad ydi goriadau yr eglwys wedi eu derbyn yn ôl gan gyn aelodau Cyfeillion yr Eglwys Newydd, penderfynwyd mai newid y clo fyddai yr opsiwn orau, a gwneud hynny pan fydd angen.
Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch i rai sydd wedi gwneud cyfraniadau i Gyfeillion yr Eglwys Newydd yn ddiweddar.
Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch i OV Jones am glirio y fynwent yn dilyn y difrod i'r to yn ystod stormydd diweddar.
iii)Canolfan Crud y Werin: Bydd swyddogion Cyngor Gwynedd yn mynychu cyfarfod Mehefin

iv)Meddygfa Rhydbach: Nid oes ateb wedi ei dderbyn hyd yma gan Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth Betsi Cadwaladr ynghylch trefnu cyfarfod yn Meddygfa Rhydbach.
v)Ymateb Cyngor Gwynedd ynghylch cinio ysgol y Pasg: Derbyniwyd ateb gan Garem Jackson o'r adran addysg yn datgan fod cig oen wedi ei weini ddydd Gwyl Dewi a bod y darnau cyw iar yn cynnig amrywiaeth ac yn boblogaidd iawn.
vi)Yr afon ym mhentref Aberdaron; Adroddwyd nad ydi CNC wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd eto, ac maent yn bwriadu gwneud yn ystod mis Mai
vii)Parcio ym mhentref Aberdaron: Derbyniwyd gohebiaeth gan Rhian Lewis ar ran Menter Môn yn gofyn am i'r Cyngor fod yn gyfrifol am wneud cais am drwydded er mwyn creu maes parcio ar dir Ysgol Crud y Werin, rheoli y moduron sydd yn parcio ar y safle, casglu arian o'r bocs rhoddion a chynnal arolwg yn ystod cyfnod y cynllun peilot.
Nid yw y Cyngor yn fodlon ymgymeryd â'r cyfrifoldebau yma gan nad ydi yr adnoddau ar gael gan y Cyngor ac nid yw gweinyddu system o'r fath yn rhan o rôl y Cyngor.
Teimlir y dylai yr ysgol fod yn gyfrifol am y parcio gan mai yr ysgol sydd yn cael yr arian a nodwyd fod lle parcio yn Bay View eisioes.
viii)Mae carreg ar y bont ym mhentref Aberdaron wedi ei tharo gan gerbyd unwaith eto ac yn beryglus.

**10) <u>Gohebiaethau</u>**

i)Llythyr ynghylch cwn ar draeth Aberdaron: Derbyniwyd llythyr gan Damian Hesdon yn cwyno am gwn yn bod yn niwsans ar draeth Aberdaron. Penderfynwyd anfon y llythyr ymlaen i Gyngor Gwynedd gan mai y cyngor sydd yn gyfrifol am y deddfau cwn.
ii)Llythyr gan Sioned Williams parthed gor-yrru ar y B4413 ac ymateb Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd copi o lythyr gan Sioned Williams i Adran Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd yn gofyn am ddiweddariad ar y mesurau arfaethedig i liniaru y gor-yrru ar y ffordd i fewn ac allan o Aberdaron. Derbyniwyd copi o ymateb gan Iwan ap Trefor o Gyngor Gwynedd yn egluro fod y broses o wneud arolwg yn mynd ymlaen ar hyn o bryd a bydd y canlyniadau yn cael eu rhannu. Bydd cynllun drafft ar gyfer rheoli cyflymder yn cael ei gyhoeddi erbyn yr haf eleni.

**11) <u>Cynllunio</u>**

Dim ceisiadau wedi eu derbyn

**12)Ariannol**

**i)Mantolen ariannol y Cyngor 2021-2022:** Cyflwynwyd cysoniad banc y Cyngor am y flwyddyn 2021-22 i'r Cyngor ynghyd a chopi o'r ffurflen flynyddol. Cadarnhawyd fod y cysoniad banc yn gywir a chadarnhawyd y ffurflen flynyddol.
Bydd y cyfrifon yn cael eu hanfon i'r archwiliwr mewnol yn fuan.

**Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:
Iwan Hughes: £195.53
HMRC (Paye): £48.80
Nesta Roberts: £12 (CCTV trwy S/O). Bydd y taliadau yn codi i £12.56 o fis nesaf.
John Tudor: £120 (paratoi Paye y clerc)
The Sign Builder: £150.42 (arwyddion i'r fynwent)
Gerddi Gwell: £445 (gwaith i warchod diogelwch y cyhoedd yn y fynwent)
Canolfan Deunant: £45 (3 cyfarfod). Nodwyd fod y pwyllgor wedi penderfynu codi y ffî am gynnal cyfarfodydd i £30 y sesiwn o hyn allan (gadawodd y Cyng Wenda Williams yr ystafell yn ystod y drafodaeth). Penderfynwyd parhau i gynnal cyfarfodydd y Cyngor yn y ganolfan.

OV Jones: Biniau i'r lôn £60

**Derbyniadau**

Ifan Hughes: £230 (claddedigaeth Owen Jones, Plas Coch a thâl ymlaen llaw am garreg fedd)

Cyngor Gwynedd: £7,500 (praesept)

Llechen Llŷn: £85 (carreg newydd, Alwyn Roberts)

**13) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

i)Nodwyd fod oglau carthffosiaeth yn nhop allt Pensarn ar adegau prysur megis Gwyl y Banc. Penderfynwyd anfon i Dwr Cymru

ii)Adroddwyd fod y dibrilliwr sydd yn Neuadd Y Rhiw yn cael ei ddefnyddio yn ddiweddar ac o ganlyniad mae angen padiau newydd. Adroddodd y Cyng Emlyn Jones ei fod wedi cael cryn drafferth i gael rhai newydd gan aros yn hir am ymateb gan Guriad Calon Cymru. Yn y diwedd, fe gafodd badiau gan Ross Hemmings sydd yn golygu fod y defib yn weithredol, sydd yn 'First Responder'. Mae wedi archebu rhai newydd a bydd angen talu iddo amdanynt fis nesaf. Penderfynwyd anfon i Ross Hemmings i ddiolch iddi.

iii)Adroddwyd fod arwydd 'Y Rhiw' ger Tyddyn Meirion wedi diflannu.

iv)Adroddwyd fod brigyn coeden yn rhwystro gwelediad i gyfeiriad Aberdaron pan yn dod i'r ffordd o'r gyffordd sy'n arwain am Llidiardau.

v)Perbyniwyd cwyn fod to sinc wedi cael ei ddefnyddio i doi tŷ newydd ar ochr Y Rhiw, penderfynwyd holi yr Adran Gynllunio os ydi y rheolau oedd yn cyfyngu y deunydd i lechi yn unig wedi newid.

vi)Adroddwyd fod llechi yn llithro oddi ar do Tŷ'r Ysgol Deunant, pednerfynwyd holi Adran Eiddo Cyngor Gwyned am ddiweddariad amy cynlluniau ar gyfer y safle ynghyd a safle Ysgol Llidiardau.

vii)Penderfynwyd holi yr Adran Gynllunio am ddiweddariad ynghylch cais cynllunio Pelydryn, Aberdaron.

**Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Neuadd Rhoshirwaun, nos Lun Mehefin 13eg am 7yh**